YSGOL PENRHYN-COCH

Bellach daeth y gêmau hoci i ben ac wedi tymor digon prysur rhaid llongyfarch y merched ar eu hymdrechion glew a'r llwyddiant a brofwyd dros y misoedd diwethaf.

Bu'r bechgyn yn hynod o lwyddiannus hefyd ym myd y bêl hirgron. Wedi prynhawn bywiog a chyffrous ar gae rygbi, Aberystwyth daethant i'r brig a chipio'r cwpan yn eu grŵp. Daliwch ati eto y tymor nesaf fechgyn.

Ganol Ebrill treuliodd plant dosbarth 4 ynghyd â Mr A. John y prifathro, wythnos yn y gwersyll ym Mhentywyn. Cafwyd tywydd ardderchog ac amser gwych yn ymweld â nifer o fannau diddorol yn y cylch. Braf oedd cael cwmni plant o ysgolion eraill yno gyda ni a phawb yn mwynhau'r awyrgylch gartrefol, gysurus.

Aeth nifer fawr o'r plant i redeg yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd ddiwedd Ebrill. Gwnaeth bob un ymdrech deg a rhai'n dangos cryn addewid i'r dyfodol. Da iawn bob un ohonoch.

Braf oedd gweld nifer o'r plant yn cymryd rhan ar lwyfan Eisteddfod y Penrhyn ar Ebrill 22ain, rhai ohonynt am y tro cyntaf erioed. Rydych i'ch canmol yn fawr am eich ymdrechion. Daliwch ati a byddwch yn fwy hyderus o lawer y tro nesaf.